# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

## RHAN 2

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## PENNOD 3

SWYDDOGAETHAU ATODOL

*Swyddogaethau amrywiol*

### 65 Dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth a help arall

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys os yw awdurdod lleol yn gofyn i berson a grybwyllir yn is-adran (4) arfer swyddogaethau'r person i ddarparu gwybodaeth neu help arall i'r awdurdod, sy'n ofynnol ganddo at ddiben arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon.

(2) Rhaid i'r person gydymffurfio â'r cais oni bai bod y person yn ystyried y byddai gwneud hynny—

(a) yn anghydnaws â dyletswyddau'r person ei hun, neu

(b) fel arall yn cael effaith andwyol ar arfer swyddogaethau'r person.

(3) Rhaid i berson sy'n penderfynu peidio â chydymffurfio â chais o dan is-adran (1) roi rhesymau ysgrifenedig dros y penderfyniad i'r awdurdod lleol a wnaeth y cais.

(4) Y personau yw—

(a) awdurdod lleol arall;

(b) awdurdod lleol yn Lloegr;

(c) corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru neu yn Lloegr;

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2021. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details)*

(d) corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu yn Lloegr;

(e) perchennog Academi;

(f) tîm troseddwyr ifanc ar gyfer ardal yng Nghymru neu yn Lloegr;

(g) person a chanddo gyfrifoldeb am lety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr;

(h) Bwrdd Iechyd Lleol;

(i) ymddiriedolaeth GIG;

(j) Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol;

(k) grŵp comisiynu clinigol;

(l) ymddiriedolaeth sefydledig GIG;

(m) Awdurdod Iechyd Arbennig.

(5) Caiff rheoliadau ddarparu, pan fo person o dan ddyletswydd i gydymffurfio â chais o dan yr adran hon, fod rhaid i'r person gydymffurfio â'r cais o fewn cyfnod rhagnodedig, oni bai bod eithriad rhagnodedig yn gymwys.

**Gwybodaeth Cychwyn**

| | |
|---|---|
| **I1** | A. 65 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)** |
| **I2** | A. 65 mewn grym ar 2.11.2020 at ddibenion penodedig gan O.S. 2020/1182, **rhl. 3(1)(h)** |
| **I3** | A. 65 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 3**, 4 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2(3)) |
| **I4** | A. 65 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 6**, 7 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2(4)(5)) |

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2021. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.